Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

| |
|---|
| **Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd**<br><br>**Cofnodion** |
| **Statws: Cymeradwywyd gan y cyd-Gadeiryddion** |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** | **3 Rhagfyr 2013** |
| **Yn bresennol:** | Rebecca Evans AC (Llafur Cymru – cyd-Gadeirydd), Mark Isherwood AC (Ceidwadwyr Cymreig – cyd-Gadeirydd), Paul Swann (Anabledd Cymru - Ysgrifennydd), Rhian Davies (Anabledd Cymru), Fiona McDonald (Anabledd Cymru), Trevor Palmer (Anabledd Cymru), Ruth Coombs (Mind Cymru), Jennie Lewis, Ruth Crowder (Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol), Paul Sourfield (Cyngor Bro Morgannwg), Ele Hicks (Diverse Cymru), Sue Dye (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol), Peter Jones (Cŵn Tywys Cymru), Clive Emery (Enterprising Employment), Owen Williams (Vision in Wales), Julie Thomas (BridgeVIS), Bill Scott (Inclusion Scotland), Heather Fisken (Byw'n Annibynnol yn yr Alban), Hilary Third (Llywodraeth yr Alban), Tracey Good (Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG), Richard Williams (Action on Hearing Loss), Rob Wilson (Sefydliad Rowan), Ruth Dineen (Coproduction Cymru), Anne Collis (Barod), Mal Cansdale (Barod), Alan Armstrong (Barod), Jonathan Richards (Barod), Tom Raines (Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant), Matthew O'Grady (Tai Pawb), Bob Gunston, Karen Warner (Anabledd Dysgu Cymru). |
| **Ymddiheuriadau** | Simon Thomas AC, Bethan Jenkins AC, Kirsty Williams AC, Norman Moore (Cyngor Cymru i Bobl Fyddar), Jim Crowe (Anabledd Dysgu Cymru). |
| **1.** | **Croeso a chyflwyniadau**<br>Croesawodd Mark Isherwood AC y grŵp i'r cyfarfod |

| | |
|---|---|
| | ac i ddiwrnod o ddigwyddiadau i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Pobl Anabl y Cenhedloedd Unedig. Eglurodd mai fformat y cyfarfod fyddai trafod yr eitemau busnes yn gyntaf, ac yna ceir tri chyflwyniad. |
| **2.** | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf (18 Hydref 2013) a materion yn codi**<br>Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.<br><br>**Materion yn codi**<br>Darllenodd Paul Swann drwy’r rhestr o gamau a oedd yn deillio o’r cyfarfod diwethaf.<br><br>Cadarnhaodd Paul Swann fod y wybodaeth ‘Talking Points’, y datganiad ysgrifenedig ar y Fframwaith ar gyfer Gwasanaethau Eirioli gan y Dirprwy Weinidog, a’r cynnig drafft o ran gwelliannau i’r papur Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi cael eu dosbarthu.<br><br>**Recordiadau o asesiadau Taliadau Annibyniaeth Bersonol (PIP)**<br><br>Nododd  Paul Swann ei fod wedi ysgrifennu at yr Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch recordiadau clywedol o asesiadau PIP, a chafwyd ymateb gan James Bolton, y Dirprwy Brif Gynghorydd Meddygol, a darllenodd Paul Swann brif bwyntiau’r llythyr .<br><br>Yn ychwanegol, dywedodd Paul Swann fod y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd hefyd wedi ysgrifennu at y Gweinidog, Esther McVay am yr un mater. Cafwyd ymateb, ac unwaith eto, darllenodd Paul Swann brif bwyntiau’r llythyr.<br><br>**Capita Tower**<br>Eglurodd Paul Swann, yn y cyfarfod diwethaf, fod mater wedi’i nodi ynghylch hygyrchedd adeilad yr Adran Gwaith a Phensiynau, Capita Tower yng Nghaerdydd. Cytunodd RE i ddilyn hynt y cais, nad oedd wedi’i ateb, am gopi o’r archwiliad o’r mynediad i’r adeilad. Yn ystod y broses hon, darganfuwyd mai |

| | |
|---|---|
| | ynghylch yr adeilad yn Abertawe yr oedd y pryder, ac nid Caerdydd. Caiff hyn ei gywiro a chaiff y mater ei ddilyn ymhellach.<br><br>**Datganiad Barn**<br>Cadarnhaodd Paul Swann fod RE wedi dosbarthu Datganiad Barn ar gyfer recordiadau clywedol a chlywedol-weledol o asesiadau PIP a darllenodd y Datganiad i'r grŵp. Mae 10 o Aelodau'r Cynulliad wedi llofnodi a chefnogi'r Datganiad.<br><br>**Llythyr y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd at y Gweinidog newydd**<br>Gofynnwyd i Paul Swann ysgrifennu at y Gweinidog newydd i nodi pryderon y grŵp ynghylch asesiadau PIP. Cadarnhaodd bod y llythyr wedi cael ei ddrafftio, a'i gymeradwyo gan RE a MI, ac y caiff ei anfon o fewn y dyddiau nesaf.<br><br>**Cosb am beidio â defnyddio ystafelloedd gwely**<br>Codwyd pryderon, yn y cyfarfod diwethaf, am y diffyg tai un ystafell wely sydd ar gael ar gyfer pobl sy'n dymuno symud i gartref llai o faint i osgoi'r dreth a elwir y 'dreth ystafell wely'. Fodd bynnag, oherwydd prinder amser, ni lwyddwyd i drafod y mater yn llawn. Fodd bynnag, yn y cyfamser, roedd tîm RE wedi gwneud gwaith ymchwil a oedd yn nodi, bod gan ddarparwyr tai i dros 20,000 o aelwydydd yr effeithir arnynt gan gosbau peidio â defnyddio eu hystafelloedd gwely ddim ond 280 o eiddo un ystafell wely ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pobl sydd am symud i gartref llai o faint.<br><br>Cyhoeddodd RE ddatganiad i'r wasg i nodi hyn ym mis Hydref.<br><br>Mae RE hefyd wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg ynghylch recordiadau o asesiadau PIP.<br><br>**Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Eiriolaeth**<br>Roedd Paul Swann yn aros am wybodaeth am fforwm Darparwyr Gwasanaethau Eiriolaeth plant a phobl ifanc |

| | |
|---|---|
| | Cafodd Paul Swann y dasg o ddosbarthu'r linc i welliannau Llywodraeth Cymru i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Nododd Paul nad oedd hyn wedi'i wneud eto, ond y bydd yn gwneud hyn ar ôl y cyfarfod heddiw.<br><br>Yn y cyfarfod diwethaf, roedd RE wedi cynnig dod o hyd i'r wybodaeth ynghylch faint o bobl a oedd yn cael arian o'r Gronfa Byw'n Annibynnol cyn 1993. Roedd y canlyniadau yn dangos bod 183 o bobl yn fras. |
| **3.** | **CYFLWYNIADAU**<br><br>**Thema Diwrnod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Anabl** 2013 **– Rhian Davies**<br>Rhoddodd Rhian Davies grynodeb o'r digwyddiadau i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Anabl. Yna rhoddodd gyflwyniad ar y thema ar gyfer y diwrnod eleni, sef 'Chwalu rhwystrau, agor drysau: er mwyn sicrhau y ceir cymdeithas gynhwysol i bawb'. Soniodd am y rhwystrau sydd, ac am y pethau a gafodd eu cyflawni ers i Ddiwrnod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Anabl gael ei ddathlu am y tro cyntaf yn y 90au. |
| 4. | **Cronfa Byw'n Annibynnol – Goblygiadau'r her gyfreithiol lwyddiannus – Paul Swann**<br>Rhoddodd Paul Swann wybod i'r grŵp am y pryder parhaus ynghylch y gronfa byw'n annibynnol. Gorffennodd ei sgwrs drwy ddweud mai'r sefyllfa ar hyn o bryd yw bod y Llywodraeth heb benderfynu a yw am barhau â'r Gronfa. Gofynnodd a oedd y Grŵp Trawsbleidiol yn teimlo yr hoffent ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol Dros Bobl Anabl i fynegi eu barn yng ngoleuni penderfyniad y Llys Apêl. Cytunwyd ar hynny. Bydd MI, RE a PS yn drafftio ymateb.<br><br>**Cam i'w gymryd:** MI, RE a PS i ddrafftio ymateb i'r Ysgrifennydd Gwladol Dros Bobl Anabl i fynegi barn |

| | |
|---|---|
| | y Grŵp. |
| 5. | **Anabledd a Threchu Tlodi – Vaughan Gething AC**<br>Ar y pwynt hwn, daeth Vaughan Gething AC i'r cyfarfod, a soniodd am anabledd a thlodi. Tynnodd sylw at yr effaith a gaiff Diwygio Lles ar bobl anabl, ar y Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gorau i liniaru'r effeithiau niweidiol yng Nghymru. Ychwanegol y byddant yn parhau i gefnogi rhai sy'n cael arian o'r Gronfa Byw'n Annibynnol yng Nghymru i fyw yn annibynnol, beth bynnag fydd y penderfyniad ynghylch dyfodol y Gronfa. Mynegodd ei gefnogaeth hefyd i'r Grant Cymorth Cyflogaeth, a sefydlwyd i gynorthwyo cyn staff Remploy a gollodd eu swyddi, i ddychwelyd i weithio.<br><br>Ymatebodd y Dirprwy Weinidog i nifer o gwestiynau cyn gadael y cyfarfod. |
| 6. | **Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Byw'n Annibynnol yn yr Alban – Hilary Third (Uned Cydraddoldeb Llywodraeth yr Alban), Heather Fisken (ILiS – Byw'n Annibynnol yn yr Alban) a Bill Scott (Inclusion Scotland)**<br>Dechreuodd Hilary Third ar y cyflwyniad drwy nodi cyd-destun y cyflwyniadau, cyn trosglwyddo'r awenau i Heather Fisken a Bill Scott a roddodd enghreifftiau ymarferol o'r gwaith y maent ill dau wedi ymwneud ag ef.<br><br>Roedd y cyflwyniad yn manylu ar eu dull gweithredu o ran byw'n annibynnol; yn nodi beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd, a beth fyddai eu sefyllfa ddelfrydol. Canolbwyntiodd Heather Fisken ar bwysigrwydd cael adborth a mewnbwn gan y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn ogystal â chan y bobl sy'n eu darparu, a nododd rai enghreifftiau. Eglurodd Bill Scott bod Inclusion Scotland yn chwaer-sefydliad i Disability Wales. Sefydliadau cenedlaethol yw'r ddwy ar gyfer Pobl Anabl a chânt eu hariannu gan yr Uned Cydraddoldeb. Maent wedi gweithio ar y Bil Gofal |

| | |
|---|---|
| | Cymdeithasol Hunangyfeiriedig yn yr Alban ac roedd yn falch o gael nodi hynny am y tro cyntaf, bod hawliau penodol ar fyw yn annibynnol wedi'u cadw am byth mewn deddfwriaeth Brydeinig. |
| 7. | **Unrhyw fater arall**<br>Nid oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod. |
| 8. | **Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol a themâu'r cyfarfodydd, gan gynnwys y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**<br><br>**11 Mawrth 2014, 6.30pm yn y Pierhead, Bae Caerdydd.** Thema – 'Cyflogaeth'.<br>Atgoffodd Paul Swann y grŵp mai un cam a oedd yn deillio o'r cyfarfod diwethaf oedd i wahodd Jeff Cuthbert AC i fod yn bresennol. Cytunodd y grŵp y dylid gwneud hynny.<br><br>**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**<br>Cynhelir y cyfarfod cyffredinol blynyddol ar ddechrau cyfarfod arferol, fel eitem ar yr agenda. Bydd dyddiad ac amser y cyfarfod yn cael ei gadarnhau. |